

2017/2018

Treth y Cyngor

Gwybodaeth Bwysig ar gyfer Talwyr Treth y Cyngor



Gostwng eich bil

Pobl ag anableddau

Os oes gennych chi neu rywun sy'n byw efo chi anabledd, ac mae eich cartref wedi'i addasu i ddiwallu eu hanghenion, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn eich bil Treth y Cyngor.

Disgownt Unigolyn Sengl

Os ydych yn byw ar ben eich hun efallai bod gennych hawl i ostyngiad o 25% ar eich bil..

Disgowntiau arall

Efallai eich bod yn gymwys i gael disgownt os ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi:

1. Yn fyfyrwr llawn amser, yn astudio i fod yn nyrs fyfyrwr, prentis neu'n hyfforddai Hyfforddiant Ieuenctid;
2. Â nam meddyliol difrifol;
3. Yn weithiwr gofal ar gyflog isel, yw'n gweithio o leiaf 24 awr, yn byw yn y man lle darperir y gofal;
4. Yn unigolyn sy'n gofalu am rywun ar fuddaliadau gwladol (am fwy na 35 awr yr wythnos) nad yw'n w'r/gwraig iddynt, yn bartner neu'n fab/merch dan 18 oed;
5. Yn 18 neu'n 19 oed ac yn yr ysgol neu newydd adael; 6. Yn aros mewn hostel neu loches nos;
7. Yn aros mewn ysbyty, cartref gofal neu ysbyty annibynnol;
8. Yn y carchar (heblaw am y rheiny sy'n y carchar am beidio talu Treth y Cyngor neu ddirwy);
9. Yn aelod o gymuned grefyddol benodol sy'n cwrdd â meini prawf penodol
10. Rydych yn y Lluoedd Arfog ac yn berchen ar Ail Gartref yng Nghymru.

Mae gan Gonwy bwerau dewisol i amrywio gostyngiadau mewn amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, ar ôl llyfogydd, dan Adran 13a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Gostyngiad Treth y Cyngor

Os ydych wedi cael bil Treth y Cyngor am y swm llawn a'ch bod ar incwm isel, efallai bod gennych hawl i Gostyngiad Treth y Cyngor, sy'n gostwng faint o Dreth y Cyngor sy'n rhaid i chi ei dalu.

Eiddo Eithriadig

Mae nifer o eiddo lle nad oes raid i chi dalu Treth y Cyngor. Maent yn cynnwys eiddo sydd:

- Heb ei ddodrefnu (eithriadig am hyd at 6 mis);
- Yn wag ac yn eiddo i elusen (eithriadig am hyd at 6 mis);
- Yn wag ac yn cael ei atgyweirio neu angen gwaith strwythurol neu addasiadau mawr (eithriadig am hyd at 12 mis)
- Wedi'i adael yn wag gan rywun sydd yn y carchar, ysbyty neu gartref gofal preswyl;
- Yn wag ac yn aros am brofeb neu lythyrau gweinyddu (a hyd at 6 mis wedyn).
- Wedi ei adael yn wag gan rywun sydd wedi symud er mwyn darparu neu dderbyn gofal personol.
- Wedi'i adael yn wag gan fyfyrwr.
- Wedi'i ailfeddiannu
- Yn gyfrifoldeb ymddiriedolwr methdalwr
- Yn wag gan fod eu meddiannaeth wedi'i gwahardd gan y gyfraith.
- Yn aros i weinidog crefyddol symud i mewn.

Eiddo gwag neu ail gartref

Pan fo eiddo wedi bod yn wag am fwy na 6 mis neu wedi'i gategoreiddio fel ail gartref, ni fyddwch yn cael disgownt.

Diogelu Data

Rhaid i ni ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ymdrin ag o, ac felly gallwn ddefnyddio'r wybodaeth roddwyd i ni i atal a chanfod twyll. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon i'r un diben gyda Gwasanaeth Buddaliadau'r Cyngor, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau eraill sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus.

Mae twyllwyr budd-dâl yn costio miliynau i ni bob blwyddyn

Mae twyll budd-dâl yn drosedd, felly os ydych yn gwybod am rywun sy'n twyllo'r system, Ffoniwch ein llinell dwyll 24 awr am ddim ac yn gyfrinachol.

Ffôn: 0800 328 6340 neu e-bost budd.dal@conwy.gov.uk

Os ydych angen help neu gyngor ar Gostyngiad Treth y Cyngor neu Fudd-Dâl Tai, 01492 576491, neu anfonwch e-bost at budd.dal@conwy.gov.uk
Os ydych eisoes yn cael ostyngiad yn eich bil trwy ddisgownt, nid oes angen gwneud cais arall.

Os rydych yn credu eich bod yn deilwng i unrhyw un o'r gostyngiadau neu eithriadau, ewch ar

www.conwy.gov.uk/trethcyngor
neu ffoniwch Uned Treth y Cyngor ar 01492 576607

Derbyn eich bil Treth y Cyngor drwy bilio electronig

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rydym bob amser yn ceisio lleihau costau, fel postio ac argraffu. Rydym rŵan yn cynnig y dewis i chi derbyn eich bil a hysbysiadau Treth y Cyngor drwy e-bost neu drwy ein gwefan yn hytrach na thrwy'r post.

Talu eich Treth y Cyngor drwy Ddebyd Uniongyrchol

Mae dros 80% o dalwyr Treth y Cyngor yng Nghonwy wedi dewis gwneud eu taliadau trwy Debyd Uniongyrchol. Mae yn un o'r ffyrdd syml, diogel a rhatach i dalu – Beth am ymuno a nhw!

Mae 4 dyddiad ar gael, sydd yn rhoi'r hyblygrwydd i chi ddewis y dyddiad gorau sydd yn gweithio orau i chi, a fedrwch ddewis talu un ai dros 10 neu 12 mis, gyda opsiwn newydd ar gael o dalu bob pythefnos.

Mae sefydlu'r Debyd Uniongyrchol i dalu eich Treth y Cyngor yn hawdd.

Os rydych eisiau cofrestru am y gwasanaethau hyn ewch ar:

www.conwy.gov.uk/trethcyngor
neu ffoniwch Uned Treth y Cyngor ar 01492 576607

Bandiau Prisio

Mae eich eiddo wedi'i roi yn un o'r bandiau canlynol – yn seiliedig ar werth eich tŷ ar 1 Ebrill 2003.

Band Prisio	Ystod Gwerth	Bwrdeistref Sirol £ p	Heddlu £ p	Cyngor Tref/ Cymuned (cyfartaledd) £ p	Cyfanswm (cyfartaledd) £ p
A	Hyd at ac yn cynnwys £44,000	741.79	166.14	26.33	934.26
B	£44,001 i £65,000	865.43	193.83	30.71	1089.97
C	£65,001 i £91,000	989.06	221.52	35.10	1245.68
D	£91,001 i £123,000	1112.69	249.21	39.49	1401.39
E	£123,001 i £162,000	1359.95	304.59	48.26	1712.80
F	£162,001 i £223,000	1607.22	359.97	57.04	2024.23
G	£223,001 i £324,000	1854.48	415.35	65.82	2335.65
H	£324,001 i £424,000	2225.38	498.42	78.98	2802.78
I	£424,001 ac uwch	2596.28	581.49	92.14	3269.91

Ymholiadau ac Apeliadau Ailbrisio

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cyngor yn delio'n uniongyrchol ag apeliadau yn erbyn bandiau prisio.

Ar gyfer ymholiadau ac apeliadau ailbrisio, neu gwestiynau ynagl yn â'ch band prisio, cysylltwch â'r:

Swyddog Rhestru, Asiantaeth Swyddfa Brisio, Tŷ Glyder, d/o 339 Stryd Fawr, Bangor Gwynedd LL57 1EP

Rhif Ffôn – **03000 505505** neu anfonwch e-bost trwy wefan y Swyddfa Brisio:
www.voa.gov.uk

Gallwch hefyd apelio os credwch nad ydych yn gymwys i dalu Treth y Cyngor; er enghraifft oherwydd nad ydych yn breswlydd nac yn berchennog, neu efallai oherwydd bod eich eiddo'n eithriedig; neu fod yr awdurdod bilio wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrifo'ch bil. Os ydych yn dymuno apelio oherwydd hyn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor yn gyntaf mewn ysgrifen fel bod ganddynt gyfle i ailystyried yr achos.

Beth a gewch am eich arian

Byddwch yn synnu beth a gewch am eich Treth y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio gwasanaeth a ariennir gennym ni bob dydd o'u bywydau. Dyma giplun o'r amrywiaeth o wasanaethau a lefel y galw sy'n rhaid i ni ei fodloni mewn blwyddyn. Mewn blwyddyn rydym yn:

- Ailgylchu a chompostio 38,000 tonn o ddeunydd o gasgliadau ochr ffordd, safleoedd danfon a chanolfannau ailgylchu.
- Cynnal 876 hectar o barciau, coetir a gofodau agored.
- Cynnal dros 16,400 o lampau stryd a glanhau 2,500 o strydoedd.
- Cynnal a chadw dros 1,700km o ffyrdd.
- Derbyn mwy na 980,000 o ymwelwyr unigryw i Wefan y Cyngor.
- Edrych ar ôl 250 o blant drwy ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Helpu tua 2,000 o aelwydydd ar ein budd-daliadau.
- Dysgu dros 16,000 o blant mewn 61 ysgol.
- Cynnal tua 1,000 o gynadleddau a digwyddiadau a llwyfannu dros 300 o berfformiadau yn Venue Cymru gan ddenu, gyda'i gilydd dros 310,000 o ymwelwyr.
- Cael dros 905,000 o bobl yn ymweld â'n 10 canolfan hamdden a'n pyllau nofio.

Y llynedd fe wnaethom fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf gan gynnwys y canlynol:

- Prosiectau Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a Chynllun Treftadaeth Treflun
- Prosiect Moderneiddio Ysgolion Cynradd
- Prosiect Adfywio Glan y Môr Bae Colwyn ac Ailosod Rheiliau Arfordirol
- Ailosod Polion Golau Stryd
- Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus
- Adnewyddu Pont Conwy
- Gosod Arwyneb Newydd a Gwella Rhwydwaith y Ffyrdd Sirol
- Gwaith Adfer Amddiffynfeydd Arfordirol, Lliniaru Llifogydd a Rheoli Risg
- Cyflawni Addasiadau mewn Tai Sector Preifat
- Cyflawni Rhaglen Digwyddiadau Mawr
- Datblygu Parc Eirias
- Prosiect Gofod Swyddfa a Moderneiddio

Treth y Cyngor Band D yn mhob Tref/Cymuned / Band D Council Tax in each Town/Community

Bandiau / Banding

Taliadau Cyngorau Tref/Cymuned Town/Community Council Precepts		CYNGOR TREF/CYMUNED TOWN/COMMUNITY COUNCIL	Treth Sylfaenol Council Tax Base	Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy Conwy County Borough Council	Comisiynydd Heddlu a Throsedd G.Cymru Police & Crime Commissioner N.Wales	Cyngorau Tref/Cymuned Town/Community Council	Treth y cyngor yn ôl BAND D Council Tax at BAND D	Annedd yn Property in	Byddwch yn Talu You Pay
2016/17 £	2017/18 £			£	£	£	£		
183,433	214,753	Abergele	4,642.45	1,112.69	249.21	46.26	1,408.16	BAND A	6/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 6/9ths of the Band D Charge in your Community
413,100	419,250	Bae Colwyn / Bay of Colwyn	11,180.03	1,112.69	249.21	37.50	1,399.40		
6,000	6,000	Betws-y-Coed	263.38	1,112.69	249.21	22.78	1,384.68		
9,000	9,000	Betws-yn-Rhos	493.77	1,112.69	249.21	18.23	1,380.13	BAND B	7/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 7/9ths of the Band D Charge in your Community
3,000	3,000	Bro Garmon	319.05	1,112.69	249.21	9.40	1,371.30		
5,000	5,000	Bro Machno	357.35	1,112.69	249.21	13.99	1,375.89		
5,000	6,500	Caerhun	662.56	1,112.69	249.21	9.81	1,371.71	BAND C	8/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 8/9ths of the Band D Charge in your Community
2,000	2,000	Capel Curig	105.14	1,112.69	249.21	19.02	1,380.92		
8,000	6,000	Cerrigydrudion	295.88	1,112.69	249.21	20.28	1,382.18		
253,900	262,257	Conwy	7,138.20	1,112.69	249.21	36.74	1,398.64	BAND D	Y taliad yn eich cymuned a ddangosir yn y tabl The charge for your community in the table
5,775	5,775	Dolgarrog	160.85	1,112.69	249.21	35.90	1,397.80		
7,500	9,000	Dolwyddelan	245.81	1,112.69	249.21	36.61	1,398.51		
6,525	6,721	Eglwysbach	452.75	1,112.69	249.21	14.84	1,376.74	BAND E	11/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 11/9ths of the Band D Charge in your Community
1,896	2,096	Henryd	399.51	1,112.69	249.21	5.25	1,367.15		
4,000	4,500	Llanddoged a/and Maenan	286.31	1,112.69	249.21	15.72	1,377.62		
15,460	15,769	Llanddulas a/and Rhyd-y-Foel	752.18	1,112.69	249.21	20.96	1,382.86	BAND F	13/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 13/9ths of the Band D Charge in your Community
459,590	429,956	Llandudno	9,286.97	1,112.69	249.21	46.30	1,408.20		
74,000	75,000	Llanfairfechan	1,453.34	1,112.69	249.21	51.61	1,413.51		
11,700	11,000	Llanfairtalhaiarn	464.75	1,112.69	249.21	23.67	1,385.57	BAND G	15/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 15/9ths of the Band D Charge in your Community
3,750	5,750	Llanfihangel Glyn Myfyr	95.43	1,112.69	249.21	60.25	1,422.15		
9,450	9,450	Llangernyw	479.36	1,112.69	249.21	19.71	1,381.61		
4,200	4,200	Llangwm	220.19	1,112.69	249.21	19.07	1,380.97	BAND H	Dwywaith cyfanswm taliad Band D yn eich Cymuned Twice the Band D Charge in your Community
8,000	8,000	Llanefydd	253.15	1,112.69	249.21	31.60	1,393.50		
65,000	80,530	Llanrwst	1,221.94	1,112.69	249.21	65.90	1,427.80		
29,000	29,000	Llansanffraid Glan Conwy	1,075.45	1,112.69	249.21	26.97	1,388.87	BAND I	21/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 21/9ths of the Band D Charge in your Community
20,000	20,000	Llansannan	578.08	1,112.69	249.21	34.60	1,396.50		
11,473	14,248	Llysfalen	867.66	1,112.69	249.21	16.42	1,378.32		
12,871	13,084	Mochdre	670.96	1,112.69	249.21	19.50	1,381.40	BAND I	21/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 21/9ths of the Band D Charge in your Community
130,000	135,000	Penmaenmawr	1,732.51	1,112.69	249.21	77.92	1,439.82		
3,650	3,900	Pentrefoelas	138.51	1,112.69	249.21	28.16	1,390.06		
119,750	131,000	Towyn / Bae Cinmel/Kinmel Bay	3,144.03	1,112.69	249.21	41.67	1,403.57	BAND I	21/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned 21/9ths of the Band D Charge in your Community
19,370	18,984	Trefriw	379.66	1,112.69	249.21	50.00	1,411.90		
3,600	3,700	Ysbyty Ifan	84.78	1,112.69	249.21	43.64	1,405.54		
1,914,993	1,970,423	CYFANSWM/TOTAL	49,901.99						
CYFARTALEDD / AVERAGE				1,112.69	249.21	39.49	1,401.39		


Ar gyfer anheddau ym Mand D yn unig y mae'r tabl uchod. Os yw eich annedd chi mewn band arall, defnyddiwch y tabl i ganfod beth fydd eich bil treth. Amcangyfrif o'r incwm a dderbynnir am bob £1 o Dreth y Cyngor yw'r Dreth Sylfaenol. Mynegir hyn fel "cyfwerth â Band D", gan gymryd i ystyriaeth nifer yr anheddau o fewn pob band, ym mhob ardal gymunedol.
If your property falls within another property band other than Band D the information at the right of the table will help you calculate how much you will pay. Alternatively look at your council tax bill. The Tax Base is the estimated income that will be received for each £1 of Council Tax. It is expressed as a "Band D equivalent" and takes into account the number of properties within each band, in each community area.

Gwybodeth Cyllideb 2017/18

I ble mae'r arian yn mynd

Cost Net Net Cost £'000	Gwasanaeth	Gwariant 2017/18 £'000	Incwm 2017/18 £'000	Cost Net 2017/18 £'000	Cost Net 2017/18 %
97,339	Addysg a Gwasanaethau Plant	104,548	(6,233)	98,315	47.10%
39,962	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	56,635	(14,876)	41,759	20.00%
23,024	Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio	43,634	(20,329)	23,305	11.16%
5,418	Prifffyrdd, Ffyrdd a Chludiant	12,220	(6,461)	5,759	2.76%
1,686	Tai	4,868	(3,042)	1,826	0.87%
0	Budd-dal Tai	37,000	(37,000)	0	0.00%
9,669	Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor	9,890	0	9,890	4.74%
11,091	Ariannu Cyfalaf	9,932	0	9,932	4.76%
5,806	Ardollau	6,035	0	6,035	2.89%
11,288	Gwasanaethau Eraill	19,135	(7,211)	11,924	5.71%
205,283	CYFANSWM GWASANAETH	303,897	(95,152)	208,745	

Gwariant Blwyddyn ar Flwyddyn



Gwybodeth Cyllideb 2017/18

O ble mae'r arian yn dod

2016/17 £'000	Ffynhonell	2017/18 £'000
113,777	Grant Cefnogi Refeniw	112,027
35,643	Cyfraniad o'r GronfaCyfradd Annomestig	38,530
52,919	Gan y Trethdalwyr	55,526
2,944	Defnydd o Gronfeydd	2,662
205,283	CYFANSWM NAWDD	208,745
(2,466)	BALANSAU (A DDYGWYD YMLAEN)	(2,466)
(2,466)	BALANSAU (A GARIWYD YMLAEN)	(2,466)

Crynodeb Gwariant Cyfalaf

2016/17 Rhaglen £'000	Gwasanaeth	2017/18 Rhaglen £'000
14,270	Addysg	3,318
363	Gwasanaethau Cymdeithasol	0
19,469	Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio	7,624
2,290	Prifffyrdd, Ffyrdd a Chludiant	2,055
3,059	Tai	1,410
3,734	Gwasanaethau Eraill	4,644
43,185	CYFANSWM GWASANAETHAU	19,051

Bydd unrhyw ail-broffilio ychwanegol o gynlluniau dynodedig yn golygu mwy o Fuddsoddi cyfalaf yn 2017/18.

Pa mor dda yw perfformiad y cyngor?

Nod y Cyngor yw darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i chi. Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau, ac yn adrodd bob blwyddyn ar ei lwyddiannau mewn dogfen o'r enw'r Adroddiad Blynyddol sydd ar gael i chi ar ein gwefan. Roedd ein perfformiad yn dda mewn sawl maes yn 2015/16. Roedd 8 o 44 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol yn y chwarter uchaf ar gyfer Cymru a ni oedd yr awdurdod lleol oedd yn perfformio orau yng Nghymru ar gyfer 5 dangosydd perfformiad.

Mae meysydd eraill lle bu cynnydd cadarnhaol yn cynnwys:

Economaidd

- Mae'r cais Ardal Gwella Busnes ar gyfer Bae Colwyn wedi bod yn llwyddiannus ac mae Cwmni Buddiannau Cymunedol wedi ei ffurfio.
- Mae caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer gofod swyddfa ym Mae Colwyn fydd yn cynorthwyo i adfywio.
- Llandudno oedd y trydydd cyrchfan gorau ar Trip Advisor, ar ôl Llundain a Chaeredin.
- Derbyniodd Sir Conwy statws Lle Menter Gymdeithasol gan Fenter Cymdeithasol y DU
- Mae polisi dyled deg yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo unigolion i reoli eu dyledion ac i ddatblygu cynllun ad-dalu teg.
- Mae recriwtio ar gyfer swyddi'r cyngor ar-lein yn awr.
- Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall o ddigwyddiadau i gefnogi'r economi leol.
- Mae Canolfan Addysg Awyr Agored Nant BH a Phentre wedi derbyn Marc Ansawdd Aur a bydd yn dathlu 50 mlynedd yn fuan.
- Cafodd Datrysiaid Tai Conwy eu canmol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol fel esiampl o gydweithio llwyddiannus.

Diwylliannol

- Mae gweithrediad Safonau'r Iaith Gymraeg yn mynd rhagddo'n dda.
- Mae nifer o ysgolion sy'n dysgu dros 25% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu.
- Mae gwaith adnewyddu Llyfrgell Bae Colwyn wedi'i gwblhau.
- Y Gwasanaethau Ieuencid oedd yr ail wasanaeth statudol yng Nghymru i dderbyn Marc Ansawdd Efydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuencid Cymru.
- Enillodd Tîm y Gwasanaethau Ieuencid nifer o gategoriâu yn y Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid:
 - Prosiect gwaith ieuencid rhagorol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru (prosiect Cŵl Cymru)
 - Prosiect gwaith ieuencid rhagorol sy'n cefnogi datblygiad sgiliau newydd i bobl ifanc (Gwasanaeth Ieuencid Conwy ar gyfer ei Brosiect Achredu)
 - Prosiect gwaith ieuencid eithriadol mewn ysgolion (am y gwaith o dargedu a chynnwys dros 200 o bobl ifanc mewn wyth o ysgolion lleol).
- View Creative gyda Venue Cymru oedd yn y rownd derfynol ar gyfer categori busnes bach am gefnogi Cymerwch Ran yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru. Enillodd Cartrefi Conwy ac Oriol Colwyn y categori Celfyddydau ac iechyd gyda "Chanolbwyntio ar Ffotograffiaeth" gyda phreswylwyr hŷn Cartrefi Conwy.

Amgylcheddol

- Mae Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd wedi'i gadw ar gyfer y Cyngor cyfan.
- Mae perfformiad lleihau carbon yn mynd rhagddo'n dda gyda'r perfformiad blynyddol gorau erioed wedi'i gyflawni.
- Mae astudiaeth ynni adnewyddadwy yn cael ei chyflawni ac mae'r cyngor yn ymchwilio astudiaeth technoleg batri i storio ynni.
- Cwblhawyd arolwg i breswylwyr ynglŷn ag ailgylchu- Atebodd mwy na 11,000 o ddeiliaid tai, gyda'r mwyafrif yn cytuno y dylai'r Cyngor gymryd camau i leihau gwastraff a chadarnhau y gallent ymdopi pe bai sbwriel yn cael ei gasglu yn llai aml a deunyddiau ailgylchu yn cael eu casglu bob wythnos.
- Enillodd Gwasanaethau'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau berfformiwr gorau ar gyfer Parciau, Gofodau Agored a Gwasanaethau garddwriaethol am y drydedd flwyddyn yn olynol ar gyfer gwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth Cyhoeddus Roedd Conwy hefyd yn y rownd derfynol y perfformiwr gorau ar gyfer: Gwasanaethau mynwentydd ac amlogfa, glanhau strydoedd, gweithrediadau cludiant a chynnal a chadw cerbydau.
- Yng ngwobrau Parcio Prydain 2016 enillodd y Rheolwr Parcio wobwr Person Parcio'r flwyddyn.
- Enillodd y Gwasanaeth TCC wobwr 'Cydnabod Rhagoriaeth' – Tîm Gweithredu TCC 2015 yng Nghynhadledd Grŵp Defnyddwyr TCC.

Cymdeithasol

- Mae adolygiad o ddarpariaeth gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar atal a galluogi yn mynd rhagddo'n dda.
- Mae gwaith adnewyddu Canolfan Hamdden Abergele wedi'i gwblhau.
- Mae Gwasanaethau Asesu Refeniw a Budd-daliadau a'r Gwasanaeth Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau wedi cadw'r Safon Rhagoriaeth Mewn Gwasanaethau Cwsmer unwaith eto.
- Rydym wedi llwyddo i dderbyn achrediad Efydd gan Fuddsoddwyr mewn Pobl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr unig Awdurdod yng Nghymru i dderbyn y safon efydd sy'n cael ei gynnal tan ddiwedd mis Rhagfyr 2015.
- Enillodd ein Canolfan Iechyd a Lles wobwr Sefydliad Gwelliant Parhaus Gwasanaethau Cyhoeddus-gwobr categori cydweithio.
- Enillodd dau o'n Gofalwyr Maeth Wobr Aur – Gwobr Peter Clarke am Hyrwyddo Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a Gwobr Ysbryd Gofal – ar gyfer yr enillydd gorau o'r holl enillwyr aur yng Ngwobrau Gofal Cymru 2015.

Cynllun Blaenoriaethau Newydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017 - 2022

Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'n blaenoriaethau o wella ac yn datblygu cyfres o Amcanion Lles y mae eu hangen ar Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd bydd y rhain yn ffurfio'n **Cynllun Blaenoriaethau** ar gyfer y Cyngor Sir. Drwy wneud gwelliannau yn y meysydd blaenoriaeth, ein nod yw y byddwn yn gweld newid cadarnhaol a chyfluoedd newydd, nid ar gyfer cymunedau heddiw yn unig, ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd..

Yn ystod haf 2016, lansiodd **Sgwrs y Sir**. Fe wnaethom siarad â grwpiau cymunedol lleol a gwahodd pobl i rannu eu syniadau ar-lein. Rydym yn defnyddio'r adborth hwn i ddatblygu'r Cynllun Blaenoriaethau. Rydym eisieu parhau â'r sgwrs hon - rydym am glywed eich syniadau ynghylch sut y gellir gwella gwasanaethau a byddwn yn defnyddio Sgwrs y Sir fel dull y gallwch rannu syniadau, a gallwn barhau i weithio gyda chi ar ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhwng wybod i ni. Gallwch ymuno â **Sgwrs y Sir** i rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau ynglŷn â'r Sir neu eich ardal leol.



www.conwy.gov.uk/countyconversation

www.conwy.gov.uk/sgwrsysir

www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/

[@sgwrsconwyconvo](https://www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/)

Moderneiddio Conwy

Yn ein Cynllun Corfforaethol rydym wedi ymrwymo i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi edrych ar ffyrdd o symleiddio a gwella ein gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithlon. Mae pwysau galw cynyddol, disgwyliadau'r galw, a llai o adnoddau yn golygu ein bod wedi gorfod parhau i newid y ffordd yr ydym yn gweithio a bod yn fwy effeithiol ac effeithlon yn ein defnydd o adnoddau, wrth gynnal safon uchel o wasanaeth i'n trigolion.

a) Moderneiddio gwasanaethau rheng flaen

Ar hyn o bryd mae gennym raglenni yn eu lle er mwyn moderneiddio ein hysgolion cynradd ac rydym wedi bod yn adolygu'n gofod swyddfa ar draws y Sir a'r ffyrdd y mae'n staff yn gweithio er mwyn ail-siapio'n gwasanaethau i gwrdd disgwyliadau trigolion wrth leihau ein costau, gostwng ein hól troed carbon a darparu amgylchedd gwasanaeth hygyrch a mwy modern.

b) Rhaglenni Adfywio

Mae gennym raglenni yn eu lle er mwyn gwneud y mwyaf o gyllid er mwyn cyflawni cynlluniau adfywio a gwella ar gyfer ardaloedd lleol. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu Cynlluniau Bro ar draws y sir a gallwch gymryd rhan drwy Sgwrs y Sir.

c) Rhaglenni Rhanbarthol

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru ar rydym yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni rhanbarthol eraill y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy un ai'n arwain arnynt neu'n bartner ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys dull gweithredu rhanbarthol o safbwynt:

- gwneud gwelliannau mewn ysgolion.
- gwella uchelgais economaidd Gogledd Cymru.
- paratoi ar gyfer argyfyngau a'u rheoli
- gweithio mewn partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- rheoli gwastraff gweddilliol ac ymagwedd genedlaethol tuag at gaffael er mwyn ennill y gwerth gorau am arian